Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru

Royal Welsh Agricultural Society

# Ffurflen Gais

## Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru
## Rhaglen Arweinyddiaeth Wledig 2026-27

Diolch am ddangos diddordeb mewn cymryd rhan yn Rhaglen Arweinyddiaeth Wledig CAFC. Mae hon yn rhaglen a ariennir yn llawn diolch i gymynrodd hael a adawyd gan y diweddar Mr N Griffiths ac arian cyfatebol gan Bwyllgor Ymgynghorol Sirol Morgannwg, sef Sir Nawdd CAFC yn 2023.

Mae cymryd rhan yn y Rhaglen Arweinyddiaeth yn gyfle oes. Fel grŵp o hyd at 12 cynrychiolydd, bydd cyfle i chi ddod i adnabod eich hun ac eraill yn well, gwneud cysylltiadau â ffigurau allweddol yn y diwydiant, dysgu sgiliau newydd ynghylch cyfathrebu a thrafod â'r cyfryngau, a datblygu eich arddull arwain ar yr un pryd, er mwyn gwella eich gyrfa a/neu fusnes.

Eleni, bydd cynrychiolwyr yn cael cyfle i fynd i ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â CAFC, a theithio i Gaerdydd a Llundain i gwrdd ag amrywiaeth eang o bersonoliaethau arwain a dewis o sefydliadau.

Cyn i chi lenwi eich ffurflen gais ar gyfer Rhaglen Arweinyddiaeth Wledig CAFC, mae yna ambell i bwynt allweddol yr hoffem ni eu pwysleisio.

Disgwylir i ymgeiswyr llwyddiannus **ymrwymo'n llwyr** i'r rhaglen ar ôl bod yn y Diwrnod Dethol, a rhaid iddynt fynd i bob sesiwn, a chyrraedd yn brydlon. Gallai methu ag ymrwymo i'r rhaglen olygu eich bod yn cael eich diarddel.

Cynhelir y **Diwrnod Dethol ddydd Mawrth 30 Ebrill 2026,** a bydd gofyn i ymgeiswyr ddod i sesiwn ragarweiniol y Rhaglen ar Faes y Sioe Frenhinol.

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael gwahoddiad i Seremoni Wobrwyo Sioe Frenhinol Cymru ddydd Llun 20 Gorffennaf, lle bydd y Gymdeithas yn cyhoeddi enwau'r ymgeiswyr llwyddiannus ar gyfer Rhaglen Arweinyddiaeth Wledig CAFC 2026-27.

Cytunwyd ar y dyddiadau canlynol ar gyfer y Rhaglen Arweinyddiaeth Wledig:

Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru
Royal Welsh Agricultural Society

| | | |
|---|---|---|
| **Diwrnod Dethol** | **30 Ebrill 2026** | **Maes y Sioe Frenhinol** |
| **Sesiwn 1** | **27-29 Mai 2026** | **Gwlad yr Haf** |
| **Sesiwn 2** | **Medi (i’w gadarnhau)** | **I’w gyhoeddi** |
| **Sesiwn 3** | **12-14 Ionawr 2027** | **Caerdydd/Llundain** |

Ar ôl cwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus, bydd ymgeiswyr yn cael eu gwahodd i’r Seremoni Wobrwyo yn Sioe Frenhinol Cymru 2027, i dderbyn eu tystysgrif. Dim ond y rheiny sydd wedi cymryd rhan lawn a gweithgar yn y rhaglen gyfan fydd yn cael y dystysgrif.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw
**4pm Dydd Mawrth 23 Ebrill 2026**

Dylid anfon ceisiadau wedi'u llenwi trwy e-bost at: alison.harvey@ruraladvisor.co.uk

Cymdeithas
Amaethyddol
Frenhinol
Cymru

Royal
Welsh
Agricultural
Society

| Rhan 1 – Manylion Cyswllt yr Ymgeisydd: | | | |
|---|---|---|---|
| Enw: | | | |
| Cyfeiriad: | | | |
| Cod Post: | | | |
| Rhif Ffôn: | | Ffôn Symudol: | |
| Cyfeiriad e-bost: | | Dyddiad Geni: | |

| Rhan 2 – Sut glywsoch chi am Raglen Arweinyddiaeth CAFC? |
|---|
| |

**Rhan 3 – Addysg a Chymwysterau**

Rhowch fanylion unrhyw gymwysterau sydd gennych:

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

| Rhan 4 – Manylion eich cyflogaeth ar hyn o bryd | |
|---|---|
| Rôl ar hyn o bryd: | Cyflogwr: |

| **Rhan 5 - Bywgraffiad** |
| --- |
| *Rhowch fywgraffiad rhwng 100 a 150 o eiriau amdanoch chi, eich cefndir a'ch diddordebau:* |

| **Rhan 6 – Yn eich barn chi, beth yw'r heriau a'r cyfleoedd i'r diwydiant Amaethyddol yng Nghymru yn y 10 mlynedd nesaf?** |
| --- |
| *Dim mwy na 250 o eiriau* |

| **Rhan 7 – Amlinellwch pam yr ydych wedi ymgeisio ar gyfer y rhaglen, beth rydych chi eisiau ei gyflawni trwyddi a beth yw eich uchelgais o ran arweinyddiaeth ar gyfer y pum mlynedd nesaf.** |
| --- |
| *Dim mwy na 250 o eiriau* |

| **Rhan 8 – Datganiad** | | | |
|---|---|---|---|
| Rydw i, .................................... yn dymuno gwneud cais am le ar Raglen Arweinyddiaeth Wledig Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru.<br><br>Mae'r holl wybodaeth a ddarperir yn y cais hwn yn wir ac yn gywir.<br><br>Wrth gyflwyno'r cais hwn, rwy'n cytuno i'm henw fynd gerbron y Panel Beirniaid i'w ystyried.<br><br>Os byddaf yn llwyddiannus, rwy'n cytuno i gymryd rhan yn llawn ac i fynd i bob sesiwn ar y dyddiadau a nodir yn y rhaglen, a hynny'n brydlon ac mewn ffordd broffesiynol.<br><br>Rwy'n cytuno i gymryd rhan mewn unrhyw ddeunydd hyrwyddo/cyhoeddusrwydd sy'n deillio o'r rhaglen. | | | |
| Llofnod: | | Dyddiad: | |
| **Gallwch deipio eich enw uchod os ydych yn llenwi cais electronig* | | | |
| | | | |